

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

23 Hydref 2020







OGL © Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

23 Hydref 2020

## Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Ar gyfer y cyfnod rhwng 13 a 19 Hydref, roedd gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fwy na 50 achos am bob 100,000 o'r boblogaeth, ac eithrio Ceredigion. Roedd gan bob awdurdod lleol lefel positifedd uwch na 5%.

- Gwelir achosion cynyddol ar draws pob grŵp oedran, gyda'r nifer mwyaf o achosion ymhlith pobl ifanc 18-25 oed. Gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr achosion mewn pobl dros 60 oed, ond mae arwyddion cynnar y gallai hyn fod yn lleihau. Mae cyfanswm nifer y cleifion mewn gofal dwys wedi gostwng ychydig, ond mae'r niferoedd yn dal i yn uwch na'r dangosydd sbarduno cyfyngiadau ar gyfer defnydd gwelyau, ac mae nifer y cleifion COVID-19 wedi cynyddu. Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau mewn achosion COVID-19 a gadarnhawyd mewn ysbytai.

- Mae'r gyfradd twf ddyddiol yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ôl amcangyfrif SAGE, yn dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 1% a 5% y dydd. Rhagwelir y bydd amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu ar gyfer Cymru rhwng 1.0 ac 1.4. Mae cyfradd twf sy'n is ond yn dal yn bositif, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn dangos bod yr epidemig yn cynyddu fwyfwy.

- Yn ôl amcangyfrifon astudiaeth heintiau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd gan tua 1 person ym mhob 180 o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 yn yr wythnos 10-16 Hydref. Mae data newydd a gynhwyswyd yr wythnos hon yn dangos bod fod 4.2% o'r cyfranogwyr 16+ oed wedi profi'n bositif ar gyfer gwrthgyrff COVID-19 ym mis Medi. Mae'n bwysig cydnabod yr ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn.

- Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan TAC yn argymell bod angen diogelu poblogaethau mwyaf difreintiedig Cymru rhag effeithiau uniongyrchol COVID-19, a rhag effeithiau anuniongyrchol COVID-19 ar yr economi a fydd yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd yn y tymor hwy.

- Mae canllawiau ar gael gan y Grŵp Cynghori Technegol ar asesu'r potensial ar gyfer technolegau newydd i wella profion diagnostig SARS-CoV-2, a chyhoeddwyd datganiad consensws ar achosion-defnydd ar gyfer profion lleol i gleifion a phwynt gofal ar gyfer RNA feirysol neu antigenau canfod SARS-CoV2.

- Cyhoeddir papurau gan SAGE a ystyriwyd gan y Gell a'r Grŵp Cyngor Technegol yma.

### Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu

- Mae SAGE yn amcangyfrif (21 Hydref) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.01 a 0.05 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn cynyddu rhwng 1% a 5% y dydd.

- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru rhwng 1.0 ac 1.4. Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel amrediad heb amcangyfrif canolog.

- Dylid parhau i fod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd bod oedi yn anorfod, ac oherwydd bod ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad. Gall argaeledd profion hefyd fod yn gyfyngiad.

- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn gadarnhaol, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

### Amser dyblu

- Mae SAGE yn amcangyfrif fod yr amseroedd dyblu ar gyfer heintiadau newydd ledled y DU rhwng 14 a 18 diwrnod. Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profi ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn parhau'n ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws ardaloedd daearyddol ac mae posibilrwydd y bydd amseroedd dyblu cyflymach mewn rhai ardaloedd.


### Modelu senario cyfnod atal byr

- Mae Prifysgol Abertawe wedi modelu effaith y cyfnod atal byr er mwyn llunio amcangyfrifon o'r effeithiau ar iechyd ac ar ddarpariaeth y GIG am gyfnod atal byr o bythefnos a thair wythnos.

- Nid rhagolwg ydyw na rhagfynegiad o'r hyn sydd fwyaf tebygol o ddigwydd, ond mae'n darparu gwybodaeth bwysig i helpu'r llywodraeth i baratoi ac ymateb mewn amrywiaeth o senarios gwahanol.

- Mae'r tabl a'r siart isod yn dangos yr effaith ar farwolaethau os yw Rt yn 1.4 (amcangyfrifon SAGE yw 1.0-1.4), ac yna gyfnod atal byr o bythefnos neu dair wythnos (Rt 0.9) ac yna Rt o 1.4. Dangosir ffigurau yn y tabl am ddau gyfnod amser; un hyd at fis Rhagfyr 2020 ac un hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae

data wedi'i fodelu yn dechrau ar 14 Hydref, ac mae'r llinell doredig fertigol ar y siart yn dangos hyn.




Ffigur: Effaith wedi'i modelu ar farwolaethau oherwydd COVID19 ar gyfer Cymru, rhwng Ionawr 2020 a Mehefin 2021

| | **Cyfanswm nifer y marwolaethau yn ôl senario** | | |
|---|---|---|---|
| | **Dim cyfnod atal byr** | **2 wythnos gyfnod atal** | **3 wythnos o gyfnod atal** |
| **12 Hydref - 31 Rhagfyr 2020** | 2,500 | 1,540 | 1,200 |
| **12 Hydref - 31 Mawrth 2021** | 4,890 | 4,140 | 3,770 |


- Mae'r canlyniadau'n dangos bod brig y nifer uchaf o farwolaethau yn gostwng a bod amseriad y nifer uchaf o farwolaethau yn symud i amser diweddarach. Gwelir yr un patrwm hefyd ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty ac achosion. Bydd maint yr effaith ar yr holl fesurau hyn ac Rt yn ystod cyfnod atal yn dibynnu ar y pecyn o ymyriadau a ddewisir. Mewn theori, bydd cynnwys mwy o ymyriadau, os glynir wrthynt, yn arwain at fwy o ostyngiad yn Rt.

- Cyhoeddwyd papur llawnach ar effeithiau cyfnod atal byr ddydd Llun 19 Hydref ar wefan Llywodraeth Cymru.


- Noder hefyd y bydd y modelu Senario Waethaf y mae'r Rhesymol ei Thybied ar gyfer Cymru yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu effaith fodeledig y cyfnod atal byr, er mwyn helpu'r gwaith cynllunio yng Nghymru.

**Proffil oedran achosion**

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau o COVID-19 a gadarnhawyd am bob 100,000 o'r boblogaeth mewn unigolion 60 oed a throsodd. Mae nifer yr achosion yn y grŵp oedran hwn wedi bod yn codi tuag at y lefel a welwyd yn y don flaenorol o heintiadau. Dangosir y data hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 9 Hydref. Mae llinellau fertigol yn dangos cynnydd amlwg yng nghyfanswm nifer y profion a gynhaliwyd.





- Mae'r siart isod yn dangos data o hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 18 Hydref. Mae hyn yn dangos y gallai'r gyfran gynyddol o achosion (a ddangosir mewn coch tywyllach) mewn grwpiau oedran hŷn fod yn dangos arwyddion cynnar o leihau.




- Noder bod y data diweddaraf, ar gyfer wythnos a ddaeth i ben ar 18 Hydref, yn debygol o gael ei effeithio gan oedi wrth ddarparu data canlyniadau profion COVID-19. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol o gael ei ddiwygio tuag i fyny yn y cyhoeddiad nesaf, gan fod mwy o ddata canlyniadau profion ar gael.

## Marwolaethau

- Yn ôl data amodol am dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 37 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion Cymru gyda COVID-19 ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 41 (a ddaeth i ben ar 9 Hydref). Mae hyn wedi cynyddu 13 ers yr wythnos flaenorol.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y marwolaethau COVID-19 a gofrestrwyd yn ôl y man lle digwyddodd yng Nghymru ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2020 (Wythnos 11) hyd at wythnos a ddaeth i ben ar 9 Hydref 2020 (Wythnos 41)




Provisional figures to Week 41 for Welsh residents have been produced using data provided by ONS to Public Health Wales. Deaths at home are those at the usual residence of the deceased where this is not a communal establishment. Care homes includes homes for the chronic sick; nursing homes; homes for people with mental health problems and non-NHS multi-function sites. COVID-19 was identified using ICD-10 codes U07.1 and U07.2. COVID-19 (any mention) refers to deaths that had COVID-19 mentioned anywhere on the death certificate, whether as underlying cause or not. Figures may differ slightly to those published by ONS due to the use of different extracts of the data at different time periods. Data is therefore subject to change as more information is received.

## Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r feirws yn parhau i ailgodi yn Ewrop wrth i'r achosion dyddiol uchaf erioed gael eu cofnodi yn yr Almaen, y Weriniaeth Tsiec a'r Eidal. Mae nifer yr achosion yn yr Ariannin wedi codi'n uwch na 900,000 wrth i'r feirws ymledu i ganolfannau poblog yng nghanol y wlad. Ar ôl haf o normalrwydd cymharol, mae Latfia bellach yn profi ail don o'r feirws sy'n fwy na'r un gyntaf.

- Roedd defnydd ysbytai a/neu unedau gofal dwys a/neu dderbyniadau newydd oherwydd COVID-19 yn uchel (o leiaf 25% o'r hyn ydoedd adeg penllanw'r pandemig) neu wedi cynyddu o'i gymharu â'r wythnos flaenorol mewn 20 o wledydd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Czechia, Denmarc, Estonia, Ffrainc, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia a'r DU). Ni welwyd unrhyw gynnydd arall, er bod amrywiaeth o ran y data sydd ar gael.

- Roedd nifer y profion positif wythnosol yn uchel (o leiaf 3%) neu roedd y nifer wedi cynyddu o'i gymharu â'r wythnos flaenorol mewn 19 o wledydd (Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Czechia, Ffrainc, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr

Eidal, Lithwania, Malta, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen a'r DU).


- Roedd y gyfradd marwolaethau 14 diwrnod o COVID-19 ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Deyrnas Unedig, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ECDC o ffynonellau cenedlaethol swyddogol 31 o wledydd, yn 12.7 (amrediad gwlad: 0.0–36.2) fesul miliwn o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd wedi bod yn cynyddu ers 30 diwrnod.

- Ar hyn o bryd, mae lefelau uchel (o leiaf 10 ym mhob miliwn) neu gynnydd parhaus (am o leiaf saith diwrnod) yn y cyfraddau marwolaeth 14 diwrnod o COVID-19, o'u cymharu â'r rhai a gofnodwyd saith diwrnod yn ôl, yn cael eu gweld mewn 17 o wledydd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Czechia, Estonia, Ffrainc, Hwngari, yr Eidal, Lithwania, Malta, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Romania, Sbaen a'r DU).

- Cofnododd Ffrainc, yr Eidal, Gwlad Pwyl a'r Almaen eu cynnydd dyddiol mwyaf mewn achosion newydd ddydd Iau (Hydref 15) ers i brofi torfol ddechrau.

- Mae'r map isod yn dangos y gyfradd digwyddedd gyfartalog o 14 diwrnod am bob 100,000 o bobl ar gyfer wythnosau 40-41. Fel yr wythnos diwethaf, mae'n amlwg bod nifer yr achosion wedi codi i dros 120 o achosion am bob 100,000 o bobl mewn llawer o ranbarthau ac i dros 240 o achosion am bob 100,000 o bobl mewn nifer cynyddol o ardaloedd.


- Mae data ynglŷn â’r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi yn y data, a pholisïau profi amrywiol, ar gael yma.




## Glynu wrth y mesurau presennol a symudedd

- Mae data diweddaraf IPSOS MORI (a ddiweddarwyd yr wythnos diwethaf) ar gyfer Cymru yn dangos canlyniadau tebyg i bythefnos yn ôl ar gyfer nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb ymhellach i 87% (o 83%), tra bod y rhai a ddywedodd eu bod wedi gweithio o'u cartref wedi gostwng o 36% i 30%. Dylid nodi mai’r unigolion eu hunain sy’n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.

- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae’r data’n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws (a ddiweddarwyd yr wythnos diwethaf) yn dangos bod 48% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn' a 37% arall yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a dywedodd 43% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r astudiaeth gymdeithasol covid.

- Mae data symudedd ar gyfer Cymru yn dangos darlun cymysg yn ystod yr wythnos diwethaf, gyda rhai yn dangos cynnydd bach a rhai yn dangos gostyngiadau bach.


- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, am yr wythnos hyd at 21 Hydref roedd 13% yn is na'r llinell sylfaen (ac ychydig yn uwch na'r wythnos diwethaf). Mae 26% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros lle maent, yn debyg i'r wythnos diwethaf. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros lle'r oeddent – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.

- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 21 Hydref yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng ychydig o gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus ill dau wedi gostwng.

- Mae data symudedd Google hyd at wythnos 18 Hydref yn dangos cynnydd bach yn y data 'preswyl' yn ystod yr wythnos ddiwethaf (h.y. pobl yn treulio mwy

o amser gartref na'r wythnos diwethaf). Mae categorïau eraill yn dangos cynnydd bach yn bennaf.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr nag yng Nghymru Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau lleol cyntaf ym mis Medi bu gostyngiadau mawr mewn symudedd yng Nghymru, ond yn ystod yr wythnos ddiwethaf gwelwyd cynnydd yn rhai o'r ffynonellau data.
- Mae data ffonau symudol dienw ac agregedig o 02 i 16 Hydref wedi dangos, ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau lleol, fod gostyngiadau amlwg mewn teithiau ym mhob ardal yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfyngiadau ddechrau. Fodd bynnag, mae teithiau yn yr ardaloedd hynny (ar gyfartaledd) yn dychwelyd yn raddol i’r hyn yr oeddent cyn y cyfyngiadau lleol. Gwelir cynnydd mewn teithiau yng Nghymru yn ystod yr wythnos ddiwethaf, tra gwelir cynnydd bach yn y DU. Drwy’r rhan fwyaf o’r haf, roedd lefelau’r teithiau debyg yng Nghymru ac yn y DU o'i gymharu â mis Mawrth, ond maent yn is yng Nghymru ers i'r cyfyngiadau lleol ddechrau – tua 28% yn is nag yr oeddent yn yr wythnos gyntaf ym mis Mawrth o’i gymharu ag 20% yn y DU.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae’r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr - 6 Chwefror 2020, yw’r llinell sylfaen. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer Awst 17 – Medi 10 fed oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




## Canlyniadau Arolwg Heintiau COVID-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

- Mae'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn dangos bod gan tua 0.55% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 yn yr wythnos 10 – 16 Hydref. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 180, neu gyfanswm o 16,700 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.

- Mae data'n awgrymu bod y gyfradd bositifedd wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon a darperir cyfyngau credadwy i ddangos yr amrediad y gallwn fod yn hyderus fod y gwir ffigur wedi’i gynnwys ynddo.

- Am y tro cyntaf, mae canlyniadau'r wythnos hon yn cynnwys amcangyfrifon o gyfran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgorffynnau drwy samplau gwaed. Mae'r data'n dangos bod 4.2% o gyfranogwyr 16+ oed wedi profi'n bositif ar gyfer gwrthgyrff COVID-19 ym mis Medi, er bod y cyfyngau hyder ar gyfer yr amcangyfrif hwn yn eang unwaith eto.

## Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5984 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynnydd o 164 yn y 7 diwrnod diwethaf.

## Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

(Ar 22 Hydref 2020)

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Gostyngodd ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) yn wythnos 42 o gymharu ag wythnosau blaenorol, ond mae ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID-19 wedi cynyddu.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ac roedd y profion positif dros 12%.
- Yn ystod wythnos 42, cynyddodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran; roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 18-25 oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a nifer yr episodau profi sy'n bositif yn parhau i godi mewn llawer ardaloedd byrddau iechyd yng Nghymru.
- Mae achosion a gadarnhawyd mewn cleifion sy'n cael eu profi wrth gael eu derbyn i'r ysbyty a chleifion mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu yn wythnos 42 o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Bu tuedd gynyddol yn nifer y cleifion mewnol sy'n profi'n bositif, yn enwedig ym mwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg.
- Nodwyd tueddiadau cynyddol yn ddiweddar yn nifer yr achosion a gadarnhawyd yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Mae dosbarthiad achosion yn awgrymu lledaeniad daearyddol cynyddol, gyda chanolrif ac ystod gynyddol o niferoedd achosion fesul ardal hefyd.
- Adroddir am niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, lleoliadau ysgol a myfyrwyr prifysgol.
- Nodwyd digwyddiadau mewn oedolion ifanc o oedran myfyrwyr prifysgol gydag adroddiadau am drosglwyddo yn digwydd mewn llety a rennir.
- Yn yr 21 diwrnod blaenorol (ar 19 Hydref) roedd rhwng 1 a 47 o achosion (staff a myfyrwyr) yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac eithrio Caerdydd, Abertawe,

Rhondda Cynon Taf a Wrecsam a oedd â 120, 74, 61 a 58 o achosion yn y drefn honno.

- Gwelwyd y gweithgarwch uchaf yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Ar 22 Hydref, mae cyfyngiadau lleol ar waith ar hyn o bryd mewn 15 ardal awdurdod lleol, un dref (Llanelli) ac un ddinas (Bangor).

- Bydd cyfnod atal ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei gyflwyno am 6pm ddydd Gwener 23 Hydref tan 12:01am dydd Llun 9 Tachwedd 2020.

- Mae marwolaethau oherwydd pob achos wedi cyrraedd y lefelau a ddisgwylir yn ystod y tymor hwn. Gwelwyd cynnydd mewn marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.


## Dangosfwrdd Data'r GIG

- Diweddarwyd data ysbytai ar 23/10/2020.


- Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys ym myrddau iechyd Cymru. Yn gyffredinol, mae'r defnydd o unedau gofal brys wedi gostwng ychydig ers crynodeb yr wythnos diwethaf, o 62.1% i 60.7%. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn dal i fod yn uwch na'r dangosydd sbardun ar gyfer defnydd gwelyau ac mae nifer y cleifion COVID-19 wedi cynyddu.

| Bwrdd Iechyd | Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 % | Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt | Cleifion y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan (ABUHB) | 59.4% | 1 | 8 |
| Betsi Cadwaladr (BCUHB) | 68.3% | 1 | 4 |
| Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) | 66.6% | 1 | 10 |
| Caerdydd a'r Fro (CVUHB) | 59.5% | 2 | 3 |
| Hywel Dda (HDUHB) | 50.0% | 1 | 0 |
| Bae Abertawe (SBUHB) | 58.6% | 1 | 6 |
| **Cymru** | **60.7%** | **7** | **31** |


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

